



Confederasiwn GIG Cymru  
Cynghrair Iechyd a Lles

Mewn partneriaeth â'r



Royal College  
of Physicians

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)

# Cofiwch y bwlch: beth sy'n atal newid?

Yr argyfwng costau byw a'r anghydraddoldeb  
cynyddol yng Nghymru

Gorffennaf 2022

# Mae'r argyfwng costau byw yn argyfwng iechyd

Mae tlodi yn achosi salwch.

## Yn gryno

- Mae 60% o bobl yng Nghymru yn dweud bod y costau byw cynyddol wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant ([RCP](#)).
- Mae anghydraddoldebau iechyd yn costio £322 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru ([Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)).
- Erbyn hyn mae gan Gymru y gyfradd tlodi plant waethaf o blith holl wledydd y DU ar 31% ([Dileu Tlodi Plant](#)).
- Mae un o bob deg aelwyd yng Nghymru yn byw mewn tai anniogel ([Sefydliad Bevan](#)).
- Mae pobl yng Nghymru yn wynebu risg uwch o farw mewn tlodi nac unrhyw wlad arall yn y DU ([Marie Curie](#)).
- Mae bron 60% o oedolion yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew ([Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)).
- Mae cost gymdeithasol lawn gordewdra i Gymru tua £3 biliwn y flwyddyn ([Frontier Economics](#)).
- Mae gan 12% o aelwydydd o leiaf 1 mis o ôl-ddyledion ar fil ([Sefydliad Bevan](#)).
- Mae tlodi plant wedi cynyddu mewn 20 o'r 22 awdurdod lleol yn y 5 mlynedd diwethaf ([Dileu Tlodi Plant](#)).

Mae pandemig COVID-19 wedi [ehangu'r anghydraddoldebau presennol](#) ac wedi amlygu'r risg rhwng [tlodi a chanlyniadau iechyd gwael yng Nghymru](#). Yn wir, mae [comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) wedi canfod mai'r bobl sydd eisoes yn byw gydag iechyd gwael, tlodi neu mewn cymunedau ymylol yng Nghymru sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil y pandemig.

Mae anghydraddoldebau iechyd yn annheg, mae modd eu hosgoi ac mae gwahaniaethau systematig yn iechyd grwpiau gwahanol o bobl. Yn ystod y misoedd nesaf, wrth i gostau byw o ddydd i ddydd barhau i gynyddu'n gyflymach nag incwm pobl, mae hyn yn debygol o arwain at ostyngiad yn safonau byw llawer o bobl. Mae cost gynyddol bwyd ac ynni, yn ogystal â phrinder staff mewn rhai sectorau ac amhariadau o ran y gadwyn gyflenwi, wedi achosi cynnydd mewn chwyddiant. Mae hyn yn debygol o ddwysáu anghydraddoldeb yn y blynyddoedd i ddod.

“Mae llawer o bobl wedi gorfod gwneud dewisiadau amhosibl – rhwng prynu bwyd, talu biliau'r cartref neu gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid. Mae hyn wedi effeithio ar iechyd meddwl pobl a'u llesiant yn gyffredinol, gan wneud i rai deimlo na allent ymdopi a chael adferiad yn dilyn argyfwng COVID-19.”

Y Groes Goch Brydeinig

“Mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n cael anhawster gydag iechyd gwael yn wynebu colli enillion trwy gyflogaeth ac yn wir, efallai na fyddant yn gallu gweithio, sy'n golygu y bydd angen iddynt gysylltu â'r system fudd-daliadau. Yn ogystal ag effeithiau ar lesiant, efallai fydd gan y rhai ag iechyd gwael gostau byw uwch a bydd plant sy'n dioddef iechyd gwael yn gweld eu haddysg yn cael ei effeithio.”

Sefydliad Joseph Rowntree

Mae tystiolaeth yn awgrymu, ar y mwyaf mai dim ond 20% o iechyd a llesiant poblogaeth sy'n ddibynnol ar wasanaethau gofal iechyd. Nid oes gan y GIG ei hun y pŵer i leihau anghydraddoldeb: dyna pam y mae angen i ni newid y ffocws o'r mentrau iechyd y cyhoedd sy'n cael eu darparu trwy'r GIG ac awdurdodau lleol a mynd i'r afael â ffactorau sy'n cynnwys tai gwael, trafndiaeth ac ansawdd bwyd. Mae angen i lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi salwch yn y lle cyntaf.

**Dylai llywodraeth Cymru greu cynllun traws-lywodraethol i leihau tlodi ac anghydraddoldebau ymysg oedolion a phlant.** Dylai hyn amlinellu'r camau gweithredol sy'n cael eu cyflawni ar draws holl adrannau'r llywodraeth, gan esbonio sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur a'i werthuso trwy fesurau a chanlyniadau perfformiad a rennir ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â chanllawiau ar sut y dylai sefydliadau unigol gydweithio i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

# Prif argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- roi blaenoriaeth i'r ymdrech i leihau'r bwllch gweithredu ar iechyd a llesiant ar gyfer oedolion a phlant
- darparu canllawiau mwy manwl ar weithredu i gyrrff cyflawni lleol
- mapio gweithgaredd presennol ar iechyd y cyhoedd, anghydraddoldebau, lleihau tlodi a nawdd cymdeithasol
- cyflwyno rheoliadau asesu'r effaith ar iechyd fel blaenoriaeth
- cydgrynhoi'r ymrwymadau ar anghydraddoldebau mewn un cynllun cyflawni er mwyn gwella atebolrwydd
- datblygu cyfres o fesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau
- sicrhau bod cyllid yn annog cydweithredu a bod hyn yn cysylltu â'r ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- gwella'r mynediad at raglenni ataliaeth mewn gofal sylfaenol a chymunedol, yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi
- buddsoddi mewn dulliau atal arloesol yn cynnwys rhaglenni sgrinio, brechlynnau a thechnoleg gwisgadwy
- gwella'r mynediad at ddata cadarn o safon uchel i fesur unrhyw newid mewn anghydraddoldebau
- ei gwneud yn ofynnol i fyrdau partneriaeth rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

"Ers gormod o amser, rydym wedi disgwyl i'r gwasanaeth iechyd fynd i'r afael â'r heriau hyn ei hun. Mae ffactorau niferus ac amrywiol yn achosi anghydraddoldeb iechyd a bydd angen ymdrechion cydlynol ar draws pob sector er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon i gau'r bwllch."

Confederasiwn GIG Cymru

"Mae tystiolaeth yn dangos y gall dull gweithredu cynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wneud gwahaniaeth. Mae angen camau gweithredu systematig, ar y cyd ar draws sawl maes er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anghydraddoldebau iechyd."

Cronfa'r Brenin

# Pam fod angen dull gweithredu traws-lywodraethol arnom?

Er bod llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ei rhaflen lywodraethu, nid oes esboniad trosfwaol o sut bydd y gwaith hwn yn cael ei gydgyssylltu ar draws strategaethau gwahanol y llywodraeth, sut y mesurir canlyniadau a sut bydd gweinidogion yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni'r ymrwymadau hyn ar sail gydweithredol.

Gallai cynllun traws-lywodraethol sefydlu ymrwymadau presennol yn eu cyd-destun, darparu rhywfaint o eglurder ynghylch canlyniadau a rennir a darparu tryloywder o ran sut y mesurir perfformiad (gweler tabl 2).

Mae gan iechyd da rôl sylfaenol yn ffyniant ein gwlad – mae gweithlu iach yn cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchiant economaidd – yn ogystal ag ar ein llesiant a'n hapusrwydd cyffredinol. Mae cyswllt cryf rhwng gwaith ac iechyd: er mwyn i waith gael effaith gadarnhaol ar iechyd, mae'n rhaid iddo fod yn 'waith da' sy'n darparu cyflogaeth sefydlog, sy'n talu cyflog byw ac sy'n cynnig amodau gwaith teg, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a datblygiad gyrfa.

## Tabl 1: Mae penderfynnyddion ehangach iechyd

Mae penderfynnyddion ehangach iechyd yn cynnwys:

- incwm a diogelwch ariannol (iechyd a chyfoeth)
- argaeledd gwaith da, boddhaus a theg
- addysg a sgiliau
- mynediad at fwyd a diod iach
- gwahaniaethu, yn arbennig ar sail nodweddion gwarchoddedig
- mynediad at y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol
- cysylltiadau cymdeithasol (teulu a ffrindiau)
- mynediad at chwaraeon a gweithgaredd corfforol
- mynediad at drafnidiaeth a theithio
- ansawdd a diogelwch tai a'r manau agored o'n hamgylch (gofod a lle).

“Mae'r berthynas rhwng iechyd ac incwm wedi ei sefydlu ers amser. Mae iechyd gwell yn gyffredinol yn gwella ansawdd eich bywyd; mae'n galluogi cyfleoedd cyflogaeth gwell ac mae'n lleihau'r costau ychwanegol y gall salwch eu hachosi. Mae byw mewn tlogdi yn golygu straen ychwanegol ar benderfyniadau o ddydd i ddydd a gall gloi pobl allan o wasanaethau sy'n hybu iechyd neu asedau eraill megis tai gwell.”

Sefydliad Joseph Rowntree

“Mae gan ardaloedd difreintiedig naw gwaith yn llai o fynediad at fannau gwyrdd ar gyfartaledd, mwy o siopau bwyd brys a dewis mwy cyfyngedig o fwyd iach, fforddiadwy.”

Cronfa'r Brenin

## Tabl 2: Beth allai cynllun traws-lywodraethol ei gynnwys?

Ar lefel Llywodraeth Cymru, dylai:

- gynnwys diffiniad cytûn o gydraddoldeb iechyd: beth sy'n cynrychioli llwyddiant?
- cynnwys targedau a chanlyniadau clir, mesuradwy gydag amserlen wedi ei diffinio
- pwysleisio cerrig milltir rheolaidd ar hyd y ffordd, wedi'u hategu gan y cyllid angenrheidiol
- y cabinet cyfan i fod yn berchen arno, o dan arweiniad y prif weinidog
- cynnwys adroddiadau blynyddol ar gynnydd, gan ddefnyddio'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan bob adran a phartner
- rhannu mesurau perfformiad ar draws adrannau'r llywodraeth
- uno gwaith presennol ar anghydraddoldebau ar draws holl adrannau'r llywodraeth.

Ar lefel ranbarthol, dylai:

- benodi arweinydd enwebedig ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar gyfer pob sefydliad y sector cyhoeddus
- cynnwys canllawiau ar sut y dylai sefydliadau gydweithio ar lefel ranbarthol o fewn strwythurau wedi eu sefydlu
- cynnwys data tryloyw a gasglwyd sy'n galluogi proses graffu ystyrion ac annibynnol.

Egwyddorion cyfathrebu ac ymgysylltu:

- dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu clir gyda rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd
  - datblygu partneriaeth wirioneddol gyda phobl a sefydliadau yng Nghymru.
-

# Beth sy'n atal newid?

Cyflawni yw'r broblem fwyaf sy'n ein hwynebu. Mewn llawer o achosion, yn syml nid oes gan gyrrff llai y gallu, yr arbenigedd, yr adnoddau na'r ffocws i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol a gyflwynir mewn deddfwriaeth a dogfennau polisi uchelgeisiol. Mae angen trawsnewid arferion ar draws y system gyfan: newid ar raddfa fawr gan bob corff cyhoeddus er mwyn atal salwch, o dan arweiniad llywodraeth Cymru.

Mae'n rhaid i ni sbarduno dulliau atal ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi, er mwyn i ymyriadau gael eu gweithredu mor fuan â phosibl. Er enghraifft, mae gwaith presennol i roi diwedd ar ddigartrefedd yn canolbwyntio'n bennaf ar lefelau atal sylfaenol, eilaidd a hyd yn oed trydyddol, yn hytrach nag ar wariant aciwt (gweler tabl 3).

Dylai sefydliadau cymunedol dderbyn cefnogaeth gyda gallu ac adnoddau i sicrhau bod newid yn digwydd ar lawr gwlad. Mae angen rhoi mwy o anogaeth i gydweithrediadau.

**Tabl 3: Beth yw lefelau atal?**

Lefelau atal	
Atal sylfaenol	Atal neu leihau'r risg y bydd problemau'n codi, a hynny fel arfer trwy bolisïau cyffredinol, e.e. addysg; hybu iechyd; gwaith rheoli tai da a chymorth tenantiaeth.
Atal eilaidd	Targeddu unigolion neu grwpiau sy'n wynebu risg uchel neu'n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol er mwyn ceisio ei hatal rhag digwydd, e.e. atgyfeirio'n gynnar at wasanaethau cymorth i deuluoedd neu gymorth ieuencid.
Atal trydyddol	Ymyrryd pan fydd problem wedi codi er mwyn ei hatal rhag gwaethygu ac unioni'r sefyllfa, e.e. dileu ôl-ddyledion rhent er mwyn osgoi achos o droi allan.
Gwario aciwt	Gwario arian er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn – prin y mae hyn yn gwneud unrhyw beth, os o gwbl, i atal problemau rhag codi eto yn y dyfodol, e.e. cost tai dros dro pan fydd pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref; cost hirdymor cefnogi plant sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod o ganlyniad i golli cartref.

Hefyd mae angen i ni fapio lle mae llywodraeth genedlaethol a lleol yn gweithio gyda phartneriaid i leihau anghydraddoldebau ar draws holl adrannau a sectorau'r llywodraeth, gwerthuso a yw'r rhaglenni yn gweithio a nodi'r gwersi a ddysgwyd, wrth rannu arfer da ar raddfa fwy o lawer.

Dylai lleihau anghydraddoldebau a gwella llesiant fod yn ganolog ym mhob strategaeth sy'n deillio o bob un o adrannau'r llywodraeth: mae dull gweithredu croestoriadol yn hollbwysig.

## Cau'r bwlch gweithredu

Yn ystod y degawd diwethaf, mae llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (yn cynnwys asesiadau asesu'r effaith ar iechyd nad ydynt wedi'u cyflwyno hyd yma) ac wedi galluogi dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r tirlun hwn yn gymhleth ac yn newid yn gyson, gyda channoedd o dargedau a mesurau perfformiad. Mae llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol ac mae wrthi'n datblygu cerrig milltir cenedlaethol, ond mae'n annhebygol y bydd llawer o bobl y tu hwnt i gylchoedd llunio polisïau yn ymwybodol o'r gwaith hwn. Mae dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu gwell gyda rhanddeiliaid allanol, sefydliadau cymunedol a'r cyhoedd yn hollbwysig.

Nid yw'r newidiadau a gynigir ar lefel genedlaethol o reidrwydd yn cael eu cyflawni ar lefel leol. Mae rhwystrau sylweddol o ran newid yn cynnwys blaenoriaethu materion a thargedau tymor byr, pwysau ar y gweithlu a galw cynyddol am wasanaethau. Er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi rhoi straen aruthrol ar y gwasanaethau cyhoeddus, mae'n rhaid i lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth wleidyddol genedlaethol yn awr i sbarduno newid. Mae hyn yn golygu darparu canllawiau manylach er mwyn i sefydliadau lleol, llai weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaethau cenedlaethol.

"Mae arweinyddiaeth wleidyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod iechyd y boblogaeth yn flaenoriaeth allweddol i'r system iechyd a gofal ar draws y llywodraeth. Dylai hyn gynnwys pennu nodau cenedlaethol uchelgeisiol a gorfodol er mwyn gwella canlyniadau a datblygu strategaeth draws-lywodraethol newydd i leihau anghydraddoldebau iechyd."

Cronfa'r Brenin

Derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017, ond bron i bum mlynedd yn ddiweddarach, nid yw rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd gan gyrrff cyhoeddus wedi'u gosod. Cymerodd ddegawd a mwy i osod rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 a ddaeth â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym ym mis Mawrth 2021. Mae'r mater hwn yn galw am newid trawsnewidiol i ymddygiad, ar draws y system gyfan.



"Mae iechyd yn system gymhleth sy'n cynnwys ystod eang o gyfranogwyr perthnasol ac amserlenni hir o bosibl ar gyfer newid. Bydd ymyriadau bach neu lugoer yn golygu y byddwn ymhell o gyflawni'r genhadaeth disgwyliad, neu'n waeth, yn gweld disgwyliad oes iach yn gostwng yn barhaus. Er mwyn cymryd y genhadaeth hon o ddifrif, mae'n rhaid iddi fod yn genhadaeth ar gyfer y llywodraeth gyfan."

Sefydliad Iechyd

Nid yw BGCau a BPRhau wedi gwneud digon i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei wneud. Dylent fod yn fwy gweladwy ac atebol, ac yn ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar leihau anghydraddoldebau.

"Mae angen gweithredu cydamserol ar sawl lefel: cenhadaeth genedlaethol barhaus er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; partneriaeth leol a chenedlaethol newydd er mwyn creu'r amodau ar gyfer llwyddiant y system; ac arweinyddiaeth leol i ddatblygu'r aflonyddwch sydd ei angen i sicrhau llwyddiant."

Cronfa'r Brenin

## Mesur Llwyddiant

Mae mesurau perfformiad yn llywio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflawni: gallai canlyniadau a rennir ar draws cyrff cyhoeddus sicrhau bod blaenoriaethau a dyraniad adnoddau yn canolbwyntio ar newidiadau hirdymor i iechyd a llesiant ac ymddygiad. Dylid cynhyrchu mesurau canlyniad ar y cyd gyda chleifion a sefydliadau eiriolaeth a arweinir gan gleifion.

"Mae'r system sydd ar waith yn gymhleth iawn. Pe byddai pob un o'r mesurau perfformiad, ar draws y gwahanol gynlluniau, yn cael eu cyfuno, mae yna 350 a mwy o fesurau y mae'n rhaid i'r gwasanaethau iechyd adrodd arnynt. Mae hyn yn golygu gwastraff amser ac adnoddau aruthrol i gydgrynhoi a dadansoddi'r wybodaeth hon."

Comisiwn Bevan

Fel arfer, pan fydd llywodraeth yn trafod beth mae wedi ei gyflawni, mae'n trafod y buddsoddiad mae wedi ei wneud mewn rhaglen neu faes gwaith penodol. Anaml y bydd yn dangos, trwy werthuso mesurau canlyniad, bod pethau wedi gwella.

Mae cyrff cyflawni yng Nghymru yn parhau i gael anhawster yn cydweithio ar y pethau sy'n llywio ein rhagolygon o fyw'n dda – ac mae rhan o hyn yn cael ei ysgogi gan fesurau a thargedau perfformiad sy'n cystadlu â'i gilydd. Dylai dull gweithredu gwirioneddol traws-lywodraethol sicrhau

bod mesurau canlyniad yn berthnasol ar draws pob sector a'u bod yn cynnwys y rhai sy'n gweithio yn y bylchau rhwng sectorau. Ni ddylid defnyddio unrhyw fframwaith fel dull o fesur perfformiad bwrdd iechyd yn unig, ond yn hytrach dylai ysgogi ffocws ar leihau anghydraddoldebau ar draws pob corff cyhoeddus. Dylid mesur BPRhau a BGCau yn ôl pa mor effeithiol y maent yn lleihau anghydraddoldebau trwy eu hasesiadau a'u cynlluniau o anghenion a llesiant eu poblogaeth.

## Deall y system

Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, dylai llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff cyhoeddus, partneriaid cyflwyno a'r sector gwirfoddol a chymunedol i adolygu a mapio fframweithiau canlyniadau, targedau a dangosyddion presennol mewn un darn o waith. Byddai hyn yn dangos lle mae mesurau presennol a dangosyddion sydd wedi eu cyhoeddi eisoes yn cyfrannu at gamau gweithredu a rennir ar anghydraddoldebau a gallai hyn arwain at gynllun effeithiol ar draws y llywodraeth.

Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd ac mae Llwyfan Atebion Tegwch Iechyd Cymru yn cael ei ddatblygu fel ffordd o gael mynediad at ddata a thystiolaeth ar leihau anghydraddoldebau iechyd.

Ond mae'r system yn parhau i fod yn un gymhleth. Mae'r jig-so cyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, anghydraddoldebau, ataliaeth, lleihau tlodi a nawdd cymdeithasol yn ei wneud yn amhosibl bron i unrhyw un y tu allan i'r llywodraeth wybod beth sy'n digwydd, heb sôn am wybod a yw'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Byddai cynllun mwy cynhwysfawr a chyfunol ar gyfer lleihau tlodi ac anghydraddoldebau yn gwneud popeth yn fwy clir a byddai'n helpu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol i weithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus i gyflawni uchelgeisiau llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a salwch.

## Rôl llywodraeth y DU

Mae'n bwysig cofio bod llawer o'r ysgogwyr newid (craffu cymdeithasol, credyd cynhwysol, y system fudd-daliadau, mewnfudo a symudiad rhydd a rhaglenni o fudd-dal i waith) yn parhau y tu hwnt i reolaeth llywodraeth Cymru: yn wir, cyflwynodd Sefydliad Bevan yr achos yn ddiweddar dros ddatganoli'r pŵer dros y budd-dal tai ac elfen dai y Credyd Cynhwysol.

Dylid ystyried papur gwyn llywodraeth y DU ar godi'r gwastad fel rhan o'r gwaith hwn; fodd bynnag, ni ddylai hyn atal cyrrff cyhoeddus yng Nghymru rhag gwneud popeth o fewn eu gallu i wella iechyd a llesiant lle bynnag y gallant. Mae'r cynllun pilot incwm sylfaenol cyffredinol yn enghraifft dda o lywodraeth Cymru'n defnyddio ei phwerau presennol i wella'r system fudd-daliadau.

“Mae'n amlwg y bydd codi'r gwastad yn galw am ddull gweithredu hirdymor ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog rhwng ac o fewn lleoedd ar draws Cymru a'r DU. Nid yw'r graddau y bydd dull gweithredu llywodraeth y DU yn llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau y mae llawer o bobl a chymunedau'n eu hwynebu ledled Cymru, a sut bydd yn rhyngweithio gyda pholisïau llywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig, yn hysbys hyd yma.”

Ymchwil y Senedd

“Ni ddylid diystyru pwysigrwydd mesurau nawdd cymdeithasol penodol i Gymru. Er bod gan system nawdd cymdeithasol y DU rôl bwysig yn datrys tlodi, mae gan gynlluniau cymorth Cymru rôl bwysig hefyd. Mae'n bwysicach fyth felly bod llywodraeth Cymru yn sefydlu system fudd-daliadau glir, effeithiol a theg, sy'n ategu'r system nawdd cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli yn y DU. Mae cynnal y cynnydd dros dro i'r credyd cynhwysol a'r lwfansau credyd treth gweithio, yn ogystal ag ymestyn hyn i fudd-daliadau etifeddiaeth, yn hollbwysig. Er enghraifft, o'r 180,000 o blant mewn tlodi, mae 140,000 yn byw mewn teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm.”

Sefydliad Joseph Rowntree

Mae'r Cytundeb cydweithio: 2021 yn cyflwyno cefnogaeth llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol. Maent wedi ymrwymo i archwilio sut gallai hyn weithio'n ymarferol a chreu'r seilwaith angenrheidiol.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant wedi argymhell y dylai llywodraeth Cymru adolygu'r gronfa cymorth dewisol a defnyddio data gweinyddol, archwilio'r rhesymau dros hawliadau llwyddiannus ac aflwyddiannus (gyda dadansoddiad llawn o'r holl nodweddion gwarchoddedig, statws teulu ac ardal awdurdod lleol ac a gafodd ymgeiswyr eu hatgyfeirio at ffynonellau cymorth pellach ai peidio), yn ogystal â datblygu map trywydd fesul cam sy'n symud tuag at feini prawf cymhwysedd mwy syml a chynhwysol ar gyfer y gronfa cymorth dewisol, a fframwaith gwerthuso.

**Tabl 4: Effeithiau dethol penderfynyddion ehangach iechyd – Cronfa'r Brenin**

Sector	Enghreifftiau
Incwm	<p>Mae incwm yn dylanwadu ar allu pobl i brynu nwyddau sy'n gwella iechyd, o fwyd i aelodaeth gyda champfa. Mae byw ar incwm isel yn ffynhonnell straen, ac mae tystiolaeth niwrolegol ddiweddar yn awgrymu bod <u>bod ar incwm isel yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn gwneud dewisiadau ynghylch ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd.</u> Mae plant o aelwydydd ym mhumed isaf y dosbarthiad incwm dros <u>bedair gwaith yn fwy tebygol</u> o brofi problemau iechyd meddwl difrifol o gymharu â'r rhai yn y pumed uchaf.</p>
Tai	<p>Mae tai o safon gwael ac <u>amodau tai gorlawn yn gysylltiedig â risg uwch</u> o glefydau cardiofasgwlaidd, clefydau anadlol, iselder a gorbryder. Wrth i dymheredd allanol ostwng, mae <u>cyfraddau marwolaeth yn cynyddu'n gyflymach o lawer</u> i'r rhai yn y cartrefi oeraf. Mae aelwydydd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol nag aelwydydd Gwyn i fyw mewn <u>cartrefi gorlawn</u> a phrofi <u>tlodi tanwydd</u>.</p>
Amgylchedd	<p>Mae cysylltiad rhwng <u>mynediad at fannau gwyrdd o safon uchel</u> a gwelliannau i iechyd corfforol a meddyliol, a lefelau is o ordewdra. Mae lefelau mynediad yn <u>debygol o fod yn waeth i bobl mewn ardaloedd difreintiedig</u>, ac i ardaloedd â chyfrannau uwch o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Amcangyfrifir bod cyswllt â llygrwyr aer yn byrhau 28-36,000 o fywydau y flwyddyn yn y Deyrnas Unedig. Canfuwyd cysylltiad rhwng cyswllt ag amddifadedd ac ethnigrwydd. Er enghraifft, yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Llundain, canfuwyd bod pobl o grwpiau nad ydynt yn Wyn <u>yn cael cyswllt â chrynodiadau uwch o nitrogen deuocsid</u>, un o'r prif lygrwyr sy'n gysylltiedig â mygdarth traffig.</p>
Trafnidiaeth	<p>Mae gan y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig <u>50% yn fwy o risg o farw mewn damwain car</u> o gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. <u>Mae plant mewn ardaloedd difreintiedig bedair gwaith yn fwy tebygol</u> o gael eu lladd neu eu hanafu ar y ffordd o gymharu â'r rhai mewn ardaloedd cyfoethocach. Gall <u>cost trafndiaeth fod yn rhwystr hefyd</u>, gydag argaeledd anghyson cynlluniau teithio rhatach a diffyg opsiynau trafndiaeth fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.</p>
Addysg	<p>Ar gyfartaledd, ymhlith y 26 o wledydd Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gall pobl â gradd prifysgol neu lefel gyfwerth o addysg yn 30 oed ddisgwyl <u>byw 5 mlynedd yn hwy</u> na phobl â'r lefelau isaf o addysg. Yng Nghymru, nid oes gan 12% o oedolion (216,000 o bobl) <u>sgiliau llythrennedd sylfaenol</u>. Mae hyn yn golygu eu bod wedi eu cloi allan o'r farchnad swyddi ac yn cael anhawster yn cynorthwyo addysg eu plant.</p>
Gwaith	<p><u>Mae cysylltiad rhwng diweithdra a disgwyliaid oes is ac iechyd corfforol a meddyliol gwaeth</u>, i unigolion sy'n ddi-waith ac i'w haelwydydd. Mae ansawdd gwaith, yn cynnwys cyswllt â pheryglon, diogelwch swyddi ac a yw'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae grwpiau nad ydynt yn Wyn yn profi <u>lefelau uwch o straen gwaith</u>, sy'n rheoli ffactorau demograffig eraill.</p>

Cofiwch y bwlch: beth sy'n atal newid?

Cymeradwyir y ddogfen hon gan:





# Ynglŷn â Chynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru

Nid yw iechyd yn fater annibynnol.

Mae angen i ni gyd chwarae ein rhan yn datblygu gwasanaeth iechyd sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae Cynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru yn cynnwys 70 a mwy o sefydliadau iechyd a gofal o golegau brenhinol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gofal cymdeithasol, a chafodd ei sefydlu yn 2015.

Cafodd ei ymgynnull gan Gonffederasiwn GIG Cymru, a'i alw'n Fforwm Polisi yn flaenorol. Datblygwyd argymhellion wrth baratoi ar gyfer etholiad 2016 ac [etholiadau'r Senedd yn 2021](#). Ym mis Ebrill 2021, fe wnaethom gyhoeddi [Gwneud y gwahaniaeth](#), oedd yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:

- gyhoeddi strategaeth draws-lywodraethol uchelgeisiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- buddsoddi mewn ataliaeth hirdymor ar draws pob sector
- gweithio mewn partneriaeth â phobl a chymunedau i newid bywydau er gwell.

Roedd y papur hwn yn dilyn llythyr agored i brif weinidog Cymru ac arweinwyr y gwrthbleidiau yn y Senedd ym mis Chwefror 2021, yn galw am strategaeth draws-lywodraethol ar anghydraddoldebau iechyd.

[@WelshConfed](#)

[www.nhsconfed.org/wales/health-and-wellbeing-alliance](http://www.nhsconfed.org/wales/health-and-wellbeing-alliance)

[@RCPWales](#)

[www.rcp.ac.uk/wales](http://www.rcp.ac.uk/wales)

[#EverythingAffectsHealth](#)

Ty Phoenix  
8 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

02920 349 850  
[www.welshconfed.org](http://www.welshconfed.org)  
@WelshConfed

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar fformat amgen,  
ebostiwch [info@welshnhscconfed.org](mailto:info@welshnhscconfed.org)

© Conffederasiwn y GIG 2022. Gallwch gopïo neu ddsbarthu'r  
gwaith hwn, ond mae'n rhaid i chi roi cydnabyddiaeth i'r awdur,  
ni allwch ei ddefnyddio at ddibenion masnachol, ac ni allwch  
newid, trawsnewid na datblygu'r gwaith.

Rhif elusen gofrestredig 1090329